**Y Grŵp Trawsbleidiol ar Angladdau a Phrofedigaeth**
Dydd Mercher 3 Chwefror 2016
Ystafell Gynadledda 21

**Cofnodion**

**Yn bresennol:**

Mark Isherwood AC (Aelod)
Roy Folland (NAFD)
Philip Blatchly (NAFD)
Nigel Lymn Rose (NAFD)
Paul Harding (Marie Curie)
Carys Moseley (Eglwys Bresbyteraidd Cymru)
William Millar (NAFD)
Kim Bird (About the Funeral)
Janette Bourne - Cruse
David Beamer (Ysgrifennydd)

**Eitem 1: Ymddiheuriadau.**

Rhodri Glyn Thomas AC
Russell George
Darren Millar AC
Janice Gregory AC
Simon Thomas AC
Paul Davies AC
Julie Morgan AC
William Graham AC
Janet Finch-Saunders AC
Lorraine Barrett (Gweinydd gyda'r Dyneiddwyr)
Martin Birch (Cyngor Sir Caerdydd)

**Eitem 2: Cymeradwyo cofnodion**

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod diwethaf.

**Eitem 3: Y wybodaeth ddiweddaraf**

Cafwyd taflen ffeithiau ddwyieithog ar roi organau gan Pat Vernon (Llywodraeth Cymru) a bydd Alan Slater yn ei dosbarthu i drefnwyr angladdau Cymru.

Nid yw'r Ysgrifennydd wedi cael gwybod eto a fydd y mater etholaethol a gododd Janet Finch-Saunders AC gyda Paul Rees (Eglwys yng Nghymru) wedi'i datrys. Dywedodd y byddai'n cysylltu â'i swyddfa i holi am yr hyn sy'n cael ei wneud.

**Eitem 4: Y Gronfa Gymdeithasol / Tlodi Angladdol**

Cafwyd trafodaeth ynghylch tlodi angladdol yng Nghymru a'r cymorth y gall y Gronfa Gymdeithasol ei gynnig.

Byddai Paul Harding yn dosbarthu papur ar dlodi angladdol a dywedodd ei bod yn bwysig cytuno ar ddiffiniad. Amlinellodd Kim Bird y gwaith roedd yn ei wneud i gymharu prisiau angladdau.

Cynhaliwyd archwiliad o'r credyd a oedd ar gael i helpu i dalu am angladdau. Amlinellodd Nigel Lymn Rose y cyfyngiadau roedd y llywodraeth yn eu gosod ar gredyd gan drefnwyr angladdau.

Mynegwyd pryder am yr effaith y byddai cyfyngiadau tebyg yn ei chael ar undebau credyd a oedd yn darparu cymorth i dalu am angladd.  Cytunwyd i wahodd cynrychiolydd o ABCUL i'r cyfarfod nesaf.

Cytunwyd y dylid ysgrifennu at y Gweinidog Gwaith a Phensiynau, yn dilyn adolygiad o bapur Paul Harding, yn amlinellu pwysigrwydd diffinio tlodi angladdau, ac yn mynegi pryder am y gronfa gymdeithasol a dyledion.

**Eitem 5: Deddfwriaeth Llywodraeth yr Alban yn ymwneud ag amlosgi a chladdu**

Cafwyd trafodaeth ynghylch y ddeddfwriaeth a oedd ar ei hynt drwy Senedd yr Alban ar hyn o bryd.

Dywedodd William Millar fod NAFD wedi rhoi tystiolaeth lafar i'r ddau bwyllgor sy'n archwilio'r Bil yn Senedd yr Alban.  Cytunodd y Grŵp i fonitro'r Bil a thrafod y datblygiadau yn y cyfarfod nesaf.

**Eitem 6: Tystysgrifau marwolaeth**

Trafododd y Grŵp y newidiadau hir ddisgwyliedig i dystysgrifau marwolaeth yng Nghymru a Lloegr.  Yn absenoldeb unrhyw ddatganiadau cyhoeddus, cytunwyd y byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu at yr Adran Iechyd i ofyn am y wybodaeth ddiweddaraf.

**Eitem 7: Unrhyw fater arall**

Roedd Roy Folland yn pryderu am yr oedi roedd crwneriaid yn ei achosi.  Ychwanegodd Nigel Lymn Rose fod defnyddio tendrau heb bris i symud cyrff ar ran y crwner yn annerbyniol ac y byddent yn arwain at brisiau uwch i bawb.

Cytunodd y Grŵp i ysgrifennu llythyr at Caroline Dineage AS (y Weinyddiaeth Gyfiawnder) yn mynegi pryder  ynghylch tendrau heb bris, a byddai’n gofyn i Gadeirydd  Grŵp Senedd y DU a Grŵp Cynulliad Gogledd Iwerddon i’w lofnodi.

Cytunwyd hefyd i gynnwys  tendrau heb bris ar agenda'r cyfarfod nesaf.

**Eitem 8: Dyddiad y cyfarfod nesaf**

Byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar ôl etholiadau'r Cynulliad.  Diolchodd y Grŵp yn gynnes i Mark Isherwood AC am gadeirio’r Grŵp ers 2011 ac am ymrwymo i godi’r materion yn ymwneud ag angladdau a phrofedigaeth yn y Cynulliad.